# Bws Babs

HAEN 2



©ESIS, Tŷ Dysgu, Cefn Coed, Nantgarw, Cardiff, CF15 7QQ
Tel: 01443 827500 Fax: 01443 827599
E-mail: esis@esis.org.uk Website: www.esis.org.uk

First Published by ESIS 2007

Author: Nia Einir Williams
Design & Illustrations: Icon Creative Design
Printer: Westdale Press, Cardiff

All rights reserved. No part of this publication may be reproduced, stored in a retrieval system, or transmitted in any form or any means, electronic, mechanical, photocopying, recording otherwise, without the prior consent of the copyright owner.




Brysiwch! Dewiswch ffrind i eistedd 'da chi ar y bws. Gwnewch res wrth y drws. Ydy pawb yma?
3 + 7 = 10
Na, dydy Nia ddim yma.
Mae trip ysgol Llwyd Ffordd heddiw. Trip i'r amgueddfa.




Dyma Nia yn dod yn lori Dad. Mae hi'n naw o'r gloch. Mae Nia yn hwyr.


Bore da  blant, Babs ydw i. Gyrrwr bws ydw i. Eisteddwch a gwisgwch eich gwregys diogelwch.
Eisteddwch yn eich seddau. Gwisgwch eich gwregys diogelwch. Barod? I ffwrdd â ni i fyny'r ffordd a  heibio'r siopau.
I ffwrdd â'r bws i fyny'r ffordd, heibio'r siopau ac ar y brifffordd.

## Canwch

Mae'r olwynion ar y bws yn troi a throi,
Troi a throi, troi a throi;
Mae'r olwynion ar y bws yn troi a throi,
Troi a throi.



Mae'r bws ar y briffordd. Mae pawb yn eistedd yn eu seddau ac yn canu.


Edrychwch blant! Edrychwch ar y dŵr! Mae hi'n ddiflas. Mae cymylau mawr du yn yr awyr.




O! na! Mae hi'n bwrw glaw.




Mae dŵr ar y ffordd.
Mae’r bws yn y dŵr.


Gwthiwch y bws!
Gwthiwch! Gwthiwch!
Ysgol
Edrychwch! Mae'r bws yn y dŵr! Mae'r car yn y dŵr a mae'r garafan yn y dŵr! Mae hi'n bwrw hen wragedd a ffyn.


Ffoniwch am help!
Ysgol
Dad! Mae'r bws yn sownd yn y dŵr! Dewch â'r lori i helpu!
Mae Nia yn ffonio ei thad.




Dyma Tad Nia. Mae lori 'da fe.
Mae Dad yn clymu'r rhaff i'r bws.
Mae Dad yn tynnu'r bws 'da'r lori.




Hwre! Mae'r bws allan o'r dŵr. Mae hi'n sych. Mae hi'n heulog. Dydy hi ddim yn bwrw glaw. I ffwrdd â'r plant ar y trip i'r amgueddfa. Mae'r plant yn hapus. Mae Babs yn hapus!